



## POLISI FFIOEDD 2018/2019

<b>Dyddiad y Cwblhawyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb:</b>	Mawrth 2018
<b>Cymeradwywyd gan:</b>	Corfforaeth
<b>Dyddiad y Cymeradwywyd:</b>	
<b>Awdur:</b>	Mark Williams
<b>Dyddiad Adolygiad:</b>	Mawrth 2019

<b>Cyhoeddwyd ar:</b>	<b>Gwefan (✓)</b>	<b>Mewnwyd (✓)</b>	<b>Porth Dysgwr (✓)</b>

Ar gael mewn ffont mawr a fformatau eraill ar gais

Gall y copi hwn fod angen ei ddiweddarau os caiff ei argraffu

# COLEG GWENT

## POLISI FFIOEDD 2018/2019

### DATGANIAD POLISI

I gyflwyno, i'w gymeradwyo, Polisi Ffioedd drafft ar gyfer 2018/19.

### PWRPAS A CHWMPAS

Mae'r Polisi Ffioedd yn darparu fframwaith ar gyfer gosod ffioedd dysgu'r Coleg i 2018/2019, ac yn manylu ar yr amodau y bydd y ffioedd dysgu yn cael eu hildio neu eu lleihau oddi tanynt. Mae'r Polisi yn cwmpasu'r holl incwm ffioedd dysgu yn fras sy'n cael eu codi gan y Coleg gan gynnwys Addysg Bellach, Addysg Uwch, Awdurdod Addysg Lleol, Rhyngwladol a Masnachol.

### MANYLION Y POLISI

#### CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae Coleg Gwent yn codi ffioedd yn flynyddol ar gyfer ei raglenni astudio ac mae'r ffioedd hyn yn rhwymedig o newid o flwyddyn i flwyddyn. Mae Ffioedd Dysgu i'w gweld yn <http://www.coleggwent.ac.uk> ac yn y Canllawiau Rhan-Amser ac Addysg Uwch.
- 1.2 Nid oes unrhyw ffioedd dysgu na chofrestru yn daladwy i ddysgwyr Brodorol ac UE sy'n dilyn rhaglenni addysg bellach **llawn amser** yng Ngholeg Gwent sydd dros **12** awr yr wythnos. Mae ffi weinyddol o £10 i'w dalu fesul dysgwr llawn amser, a gallai fod ffioedd perthynol i gyrsiau am ddeunyddiau, eitemau traul, dillad arbenigol ayb. Mae'r ffi weinyddol hefyd yn gymwys i gyrsiau sy'n dechrau ar ganol blwyddyn ond gallant, gyda chymeradwyaeth CMT, gael eu hildio mewn enghreifftiau penodol. Nid yw'r ffi weinyddol £10 yn gymwys i gyrsiau Addysg Uwch.
- 1.3 Nid oes unrhyw ffioedd dysgu yn daladwy mewn perthynas â chyrsiau **rhan amser wedi eu cyllido** ar gyfer dysgwyr brodorol a Chomisiwn Ewropeaidd sydd wedi gorffen eu haddysg orfodol ac sydd dros 16 oed ond o dan 19 oed ar 1 Medi o'r flwyddyn dechrau astudio. Fodd bynnag, mae ffioedd cofrestru ac arholi yn daladwy ar gyfer cyrsiau rhan-amser beth bynnag y bo'r oedran. Gallai fod ffioedd perthynol i gwrs ar gyfer deunyddiau, dillad arbenigol a gwiriadau DBS ayb
- 1.4 I gyrsiau rhan-amser heb eu cyllido, mae'r ffi daladwy yn cael ei bennu gan oedran y dysgwr ac a yw'r cwrs yn achrededig. Ni fydd rhaid i ddysgwr 16-18 oed dalu ffioedd dysgu am unrhyw gwrs achrededig ond maen nhw'n dal yn gymwys ar gyfer unrhyw ffioedd cwrs eraill e.e. ffioedd cofrestru neu arholi. Mae pob ffi yn daladwy ar gyfer unrhyw gwrs sydd ddim yn achrededig beth bynnag y bo oedran y dysgwr.
- 1.5 Mae ffioedd dysgu ar gyfer dysgwyr Addysg Uwch HNC/Gradd Sylfaen /TAR ar gyrsiau wedi eu rhyddfrefinio yn cael eu codi yn unol â threfniadau cytundebol y Coleg gyda'r Brifysgol bartner. Mae atodlen Ffi Dysgu Addysg Uwch y Coleg ar gael yn [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)
- 1.6 Mae ffioedd dysgu dysgwyr tramor ar gael yn [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk) Dylai dysgwyr sy'n ansicr o'u statws gyfeirio at gyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar eu gwefan [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk) neu gysylltu â Rheolwr Busnes y Campws yng nghampws Coleg Gwent o'u dewis hwy (mae manylion cysylltu ar gael yn [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk))
- 1.7 Mae'r canllaw rhan-amser yn manylu ar newidiadau i gyrsiau ac yn gweithredu ochr yn ochr â nifer o bolisiâu Coleg perthynol eraill. Mae'r polisiâu hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu fframwaith ar gyfer gosod, talu a chasglu ffioedd dysgu.
- 1.8 Oni bai fod Nawdd Cyflogwr, neu arian Cyllid Myfyrwyr Cymru yn ei le (myfyrwyr Addysg Uwch), mae dysgwyr yn cadw'r atebolrwydd terfynol dros dalu eu ffioedd, wedi eu hanfonebu neu beidio.
- 1.9 Gallai unrhyw ddysgwr gyda dyled sy'n sefyll beidio â chael caniatâd i gofrestru mewn unrhyw safle Coleg, neu symud ymlaen o fewn rhaglen astudio, hyd y bydd pob ffi sy'n sefyll wedi cael eu talu.
- 1.10 Ni fydd unrhyw ffioedd yn cael eu codi ar ddysgwr Addysg Bellach llawn amser yng Ngholeg Gwent sy'n mynychu cwrs TGAU Mathemateg neu Saesneg. I unrhyw gwrs addysg bellach rhan-amser prif lif ychwanegol, boed y cwrs ychwanegol yn berthnasol i'r cwrs llawn amser neu beidio, bydd ffioedd yn cael eu codi (oni bai fod y cwrs rhan-amser yn ffurfio rhan o'r

Rhaglen Maes Dysgu llawn amser – LAP). Ni fydd ffioedd dysgu yn cael eu codi ar y rhai o dan 19 ond bydd unrhyw ffioedd ychwanegol yn cael eu codi arnynt.

- 1.11 Mae gwybodaeth am gostau ychwanegol i'w gweld yn [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk)
- 1.12 Gallai dysgwyr, gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau a'r cwrs, fod â hawl i Ostyngiad Ffi. Mae manylion ychwanegol ar gyfer lldiadau Ffi ar gael yn [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk). Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol fod Gostyngiadau Ffi yn gymwys yn erbyn Ffioedd Dysgu yn unig. Mae pob ffi arall yn parhau yn daladwy.
- 1.13 **NID YW** gostyngiadau ffi yn gymwys i gyrsiau masnachol dynodedig na chyrsgiau ffioedd uwch lle mae'r dysgwr dros 19 oed.
- 1.14 Gall y dysgwyr hynny sydd ddim yn gymwys am ostyngiad Ffi ddal fod â hawl i gael dulliau eraill o Gefnogaeth Ariannol, ac mae manylion ohonynt ar gael yn [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk).
- 1.15 Mae ffioedd yn daladwy yn gyffredinol ar ddechrau pob blwyddyn astudio. Mae eithriadau i'r rheol gyffredinol hon yn cael eu nodi yn y prospectws.

## 2. FFIOEDD ARHOLI

- 2.1 Mae Ffioedd Arholi ar gyfer arholiad cyntaf pob dysgwr llawn amser yn cael eu talu gan y Coleg
- 2.2 Mae'n rhaid i bob dysgwr llawn amser sy'n dymuno ailsefyll arholiad dalu'r ffi arholiad perthnasol (oni bai fod amgylchiadau esgusodol sydd wedi cael eu cadarnhau gan Gyfarwyddwr y Campws). Gall y ffi arholiad hefyd gael ei ailgodi ar ddysgwyr os methant â mynychu heb unrhyw reswm dilys.
- 2.3 Mae'n rhaid i bob dysgwr rhan-amser (neu eu cyflogwr os yn nodedig) dalu'r ffi arholiad priodol wrth gofrestru.
- 2.4 Mae Ffioedd Arholi yn seiliedig ar ffioedd a godir gan gyrff dyfarnu a lle'n gymwys, yn cael eu cynnwys o fewn y ffi sy'n cael ei godi ar y dysgwr wrth gofrestru ar y cwrs.
- 2.5 Bydd gofyn i ymgeiswyr allanol sy'n sefyll arholiad yng Ngholeg Gwent dalu ffioedd ychwanegol am y costau, ac mae'r manylion ohonynt ar gael yn [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk).
- 2.5 Bydd rhaid i bob dysgwr AS/A2 dalu am ailsefyll os dymunant wella eu gradd.
- 2.6 Caniateir i ddysgwyr WBL ailsefyll un arholiad am ddim fesul arholiad/modiwl (yn unol â threfniadau cyllido WBL ).

## 3. FFIOEDD COFRESTRU

- 3.1 Mae Ffioedd Cofrestru ar gyfer pob dysgwr llawn amser yn cael eu talu gan y Coleg.
- 3.2 Mae'n rhaid i bob dysgwr rhan-amser (neu eu cyflogwr os yn nodedig) dalu'r ffi Gofrestru briodol.
- 3.3 Mae Ffioedd Cofrestru yn seiliedig ar ffioedd sy'n cael eu codi gan gyrff dyfarnu a lle'n gymwys, yn cael eu cynnwys o fewn y ffi sy'n cael ei godi ar y dysgwr wrth gofrestru ar y cwrs.

## 4. TALIADAU

- 4.1 Mae Coleg Gwent yn casglu ffioedd dysgu yn unol â'i atodlen ffioedd flynyddol a pholisïau perthynol. Mae ffioedd dysgu yn ddyledus ar adeg cofrestru ac mae'r Coleg yn derbyn yr ystod o ddulliau talu a amlinellir isod:
  - Yn y cnawd gan ddefnyddio cerdyn credyd neu ddebyd, siec, drafft banciwr neu arian parod
  - Dros y teleffon wrth gysylltu â naill ai'r campws priodol neu adran Gyllid Ganolog y Coleg yng Nghampws Pont-y-pŵl (manyion cyswllt ar gael yn [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk))
  - Trwy'r post – Siec neu ddrafft banciwr (ysgrifennwch enw dysgwr, ID a chwrs ar gefn y siec)
  - Trosglwyddiad banc i fanc – gan ddyfynnu ID Dysgwr fel cyfeirnod

- Mae rhandaliadau Debyd Uniongyrchol ar gael am isafswm o £20 y rhandaliad ac isafswm o 2 randaliad. Mae manylion ychwanegol ar gael yn [www.coleggwent.ac.uk](http://www.coleggwent.ac.uk). Bydd unrhyw Ddebyd Uniongyrchol sy'n diffygdalu yn creu ffi £15 yn awtomatig.
- Gellir cysylltu hefyd â Chyllid Canolog y Coleg gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost canlynol: [salesledger@coleggwent.ac.uk](mailto:salesledger@coleggwent.ac.uk).

- 4.2 Nid yw'r Coleg yn derbyn cardiau American Express.
- 4.3 Lle mae'r cyflogwr yn talu ffioedd, mae'n rhaid i ddysgwyr sicrhau bod y Coleg yn derbyn **Ffurflen Cyflogwr yn Talu Ffioedd** fel arall bydd y dysgwr yn cael ei anfonebu ac yn atebol am y cyfanswm sy'n ddyledus. Mae llythyr ar bapur pennawd Cwmni, neu e-bost gan y cyflogwr hefyd yn awdurdodaeth dderbyniol
- 4.4 Mae'n rhaid i bob dysgwr Addysg Uwch sy'n derbyn cefnogaeth ariannol ddarparu copi o'u llythyr hysbysu ariannol dan y pennawd 'Gwybodaeth Talu Prifysgol neu Goleg' ar adeg cofrestru yng Ngholeg Gwent, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny. Mae'r wybodaeth hon yn dangos cyfanswm y ffi ddysgu daladwy gan Gyllid Myfyrwyr. Mae'n cynnwys hefyd Rhif Cefnogi Myfyriwr sy'n ofynnol i ryddhau'r taliadau ffi ddysgu a grantiau myfyrwyr. Mae angen i unrhyw ffioedd sy'n weddill naill ai gael eu talu'n llawn neu trwy randaliadau.
- 4.5 Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw drafod ariannol lle nad oes modd adnabod na chadarnhau tarddiad y taliad.

## 5. PEIDIO Â THALU FFFIOEDD DYSGU

- 5.1 Fel yn adran 1.8, gall dysgwyr sy'n diffygdalu neu'n methu taliadau a gytunwyd gael eu heithrio o'r Coleg os nad yw trefniadau boddhaol yn cael eu gwneud gyda'r Adran Gyllid i ddatrys materion peidio â thalu. Trefniadau boddhaol yw:

- Talu'n llawn neu
- Drefniadau Debyd Uniongyrchol wedi eu cytuno ac ad-dalu boddhaol wedi'i gynnal heb ddiffygdalu neu
- Wedi darparu Ffurflen Cyflogwr yn Talu Ffioedd (gweler Adran 4.3)
- Lle bo noddwr yn methu â thalu o fewn 60 diwrnod o ddyddiad anfoneb, mae atebolrwydd yn mynd yn ôl i'r dysgwr fydd yn cael ei anfonebu am y ddyled sy'n sefyll
- Cytuno ar gynllun ad-dalu gyda'r adran Gyllid
- Darparu copi o gadarnhad ysgrifenedig o gais i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC) am fenthyciad dysgu i dalu'r ddyled sy'n sefyll (dysgwyr llawn amser Addysg uwch Brodorol ac UE yn unig) o fewn y tymor cyntaf
- Darparu prawf o fudd-dâl mewn perthynas ag ildiad ffi posibl
- Darparu tystiolaeth o dderbyn Benthyciad Datblygu Gyrfa

- 5.2 Bydd taliad ychwanegol o 10% o'r balans sy'n sefyll (isafswm £10) yn cael ei ychwanegu os yw cyfrif dysgwr yn cael ei drosglwyddo i gasglwyr dyledion allanol y coleg (TNC Collections)

- 5.3 Gall unrhyw falans sy'n aros heb ei dalu wedi i'r cyfrif gael ei gyfeirio at TNC arwain at weithredu cyfreithiol yn erbyn y dysgwr. Yn y sefyllfa hon, bydd y cyfrif yn magu llog dyddiol a chostau gweinyddol a gallai arwain at CCJ yn cael ei gyflwyno yn erbyn y dysgwr.

- 5.4 Mae ffioedd cwrs sy'n cwmpasu cyrsiau 2 flynedd penodol yn daladwy yn llawn wrth gofrestru ac yn cwmpasu hyd 2 flynedd llawn y cwrs. Ni fydd unrhyw ad-daliad ffi yn daladwy os nad yw'r dysgwr yn dechrau'r ail flwyddyn, oni bai y gellir bodloni unrhyw feini prawf cymhwyso sy'n cael eu hamlinellu yn y 'Polisi Ailasesu Ffioedd'.

## APELIADAU FFIOEDD

### 6. AILASESU FFIOEDD

6.1 Bydd ffioedd yn cael eu had-dalu o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig:

Dysgwyr Addysg bellach yn talu eu ffioedd eu hunain:

- Nid yw'r Coleg yn rhedeg, neu gau cwrs, wedi dechrau
- Mae dysgwr yn tynnu allan o'i gwrs o fewn 3 wythnos o ddechrau cwrs hyd safonol. Lle'n bosibl, bydd dysgwyr sy'n cael eu hunain ar raglen astudio anaddas yn cael cynnig dewis arall addas.
- Bydd ffioedd rheoli a chofrestru ond yn cael eu had-dalu lle nad yw'r Coleg wedi creu'r gwariant cysylltiedig.
- Mae dysgwyr yn methu â pharhau â'u cwrs oherwydd salwch. Mae'n rhaid i geisiadau am ad-daliadau gael eu cefnogi gan gadarnhad ysgrifenedig gan feddyg fod salwch estynedig yn atal y dysgwr rhag parhau â'i gwrs.
- Dysgwyr sy'n gorfod gadael eu cwrs oherwydd salwch estynedig aelod o'u teulu, lle maen nhw'n brif ofalwr.

Noddwyr yn talu ffioedd dysgwr:

- Nid yw'r Coleg yn rhedeg, na chau cwrs, ar ôl dechrau

Mae dysgwyr Addysg Uwch sy'n rhoi'r gorau i'w hastudiaethau (tynnu yn ôl, atal, a throsglwyddo) yn creu ffi atebolrwydd fel a ganlyn:

Cyrsiau FT a PT HNC/HND a FD:

- Cyfnod o ras hyd at 14 diwrnod o **ddyddiad dechrau swyddogol y cwrs** (fel y brifysgol) – 0% o atebolrwydd ffi dysgu
- Unrhyw fynychu wedi'r cyfnod gras i ddiwedd Tymor 1 – 25% o atebolrwydd ffi dysgu llawn
- Unrhyw fynychu ar gyfer Tymor 2 – 50% o atebolrwydd ffi dysgu llawn
- Unrhyw fynychu ar gyfer Tymor 3 – 100% o atebolrwydd ffi dysgu llawn

PT Myfyrwyr Proffesiynol a Chyllid (AAT):

- Cyfnod o ras hyd at 14 diwrnod o **ddyddiad dechrau swyddogol y cwrs** - 0% o atebolrwydd ffi dysgu llawn
- Unrhyw fynychu wedi'r cyfnod gras ond o fewn 4 wythnos ddysgu o ddyddiad dechrau'r cwrs – 25% o atebolrwydd ffi ddysgu llawn
- Unrhyw fynychu ar ôl 4 wythnos ddysgu ond o fewn 8 wythnos ddysgu o ddyddiad dechrau'r cwrs –50% o atebolrwydd ffi dysgu llawn
- Unrhyw fynychu ar ôl 8 wythnos ddysgu o ddyddiad dechrau'r cwrs -100%o atebolrwydd ffi dysgu llawn

**O dan bob amgylchiad arall mae'r dysgwr yn atebol am y ffi cwrs llawn.**